

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2011-2012

YSBRYDOLI CENEDLAETHAU



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

CYNNWYS

1 RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

2-5 UCHAFBWYNTIAU 11/12

6-7 DYSGU AC ADDYSGU

Gwobrau Dysgu Dan Arweiniad Myfyrwyr

Gwella Profiad Myfyrwyr

Ansawdd Rhagorol

8-9 CYFRWNG CYMRAEG

Safonau Rhagorol ar Gyfer Dysgu Cymraeg

Darlunio Traddodiad

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chynlluniau Dysgu Ar-lein

10-11 RHYNGWLADOLI

Bangor yn Codi Pont Ddiwylliannol

Prifysgol Ryngwladol

Ysgolion Haf Rhyngwladol

12-15 YMCHWIL

Bangor yn Cynyddu Cyflymder Band Eang

Helpu Rhieni i Ddysgu Cymraeg

Ymchwilio i Agweddau'r Cyhoedd

Project Eliseg yn Datgelu ei Gyfrinach

Ymchwil Fydd o Fudd i Athletwyr Amlwg y Dyfodol

Diogelu Stociau Pysgod y Byd

16-20 CYMUNED

Rhaglen Lawn Pontio

Cyfrifadura Perfformiad Uchel

Trawsnewid Arweinwyr y Dyfodol

Trwy Gymeradwyaeth Frenhinol

Fflam Olympaidd yn Dod i Fangor

Ar Frig y Gynghrair Werdd

LLYWODRAETHU

Cyfarfu'r Cyngor, sef corff llywodraethu'r Brifysgol, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Davies o Abersoch, bedair gwaith yn 2011/12. Cynorthwyr y Cyngor gan nifer o is-bwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Adnoddau, dan gadeiryddiaeth y Trysorydd, Mr David Williams, a gyfarfu bedair gwaith. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg, dan gadeiryddiaeth Mr Geraint Jones, bedair gwaith. Ymysg pwyllgorau eraill y Cyngor mae'r Pwyllgor Strategaeth, y Pwyllgor Moeseg, y Pwyllgor Dwyieithrwydd a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd diwygiadau i Siarter a Statudau'r Brifysgol gan y Cyfrin Gyngor a alluogodd y Brifysgol i newid teitl y Llywydd ac Is-lywydd i 'Canghellor' a 'Dirprwy-Ganghellor'.

Mae gwybodaeth bellach ynghylch trefn lywodraethu'r Brifysgol ar gael yn
<http://www.bangor.ac.uk/about/management.php.cy?>

RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blyneddol am 2011-12, sy'n rhoi sylw i ddetholiad bychan o'n llwyddiannau niferus dros y deuddeg mis diwethaf. Mae wedi bod yn flwyddyn anodd mewn llawer ffordd, ond unwaith eto mae perfformiad Bangor wedi bod o'r radd flaenaf, yn arbennig pan fo rhywun yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau mawr sy'n effeithio ar y sector ar hyn o bryd.

Roeddwn yn arbennig o falch gyda chanlyniad adolygiad sefydliadol yr ASA a ddaeth i'r casgliad bod safonau ym Mangor o'r lefel uchaf.

Rwy'n disgwyl blwyddyn lawn her arall i'r sector yn gyffredinol. Mae prifysgolion yn wynebu sawl ansicrwydd. Mae effaith y drefn ffioedd newydd, yr hinsawdd economaidd anodd, gwahaniaethau polisi rhwng Cymru a Lloegr, a llawer o ffactorau eraill, yn rhoi prawf cyson ar ein staff a'n myfyrwyr. Ar draws Ewrop a thu hwnt rydym yn gweld pwysau economaidd enfawr yn achosi pryder a thrafferthion i lawer. Ond mae llywodraethau ac eraill yn prysur sylweddoli'r swyddogaeth allweddol sydd gan brifysgolion, nid yn unig i ddatblygu gweithlu ac entrepreneuriaid y dyfodol, ond hefyd i gefnogi gweithgaredd economaidd, hybu twf a bod yn ysbrydoliaeth i arloesi.

Mae gwaith adeiladu'n dechrau ar ein Canolfan Gelfyddydau ac Arloesi hir ddisgwyliedig a fydd yn costio £44m. Yn ogystal â rhoi cyfleusterau gwych i fyfyrwyr, staff a'r gymuned leol, bydd hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi. Bydd yn ganolfan o ragoriaeth i ddiwylliant, ond bydd yn llawer mwy na hynny hefyd. Bydd yn tynnu ein hacademyddion a byd busnes yn nes at ei gilydd, bydd yn ein galluogi i roi amlygrwydd i'n hymchwil a bydd yn hybu arloesi ymysg myfyrwyr, staff, busnes a'r gymuned.

Mae'r wybodaeth a'r sgiliau y mae ein myfyrwyr yn eu derbyn a'u meithrin, yn ogystal â'r ymchwil a wneir yn y Brifysgol, yn chwarae rhan bwysig wrth wella ffyniant economaidd a chymdeithasol

Cymru a'r byd, ac edrychwn ymlaen at barhau â'r gwaith hanfodol hwn yn y blyneddoddi i ddod.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cryfhau a dyfnhau partneriaethau a oedd eisoes wedi'u sefydlu â Phrifysgol Aberystwyth a Grŵp Llandrillo Menai. Rydym hefyd wedi lansio nifer o bartneriaethau rhyngwladol newydd; er enghraifft, gyda Sefydliad Ymchwil Tsinghua Shenzhen, ac agorwyd Canolfan Confucius ym Mangor, y gyntaf yn y byd i ganolbwyntio ar Y Gyfraith. Rwy'n edrych ymlaen at weld y cynlluniau hyn yn datblygu ymhellach ac at gyflwyno rhai newydd, megis y bartneriaeth rydym yn ei datblygu â'r Brifysgol Coedwigaeth a Thechnoleg yn Changsha, a fydd yn gweld Bangor yn dod yn un o blith dyrnaid yn unig o brifysgolion sydd â champws yn China.

Bydd y flwyddyn academaidd nesaf yn dod â'i sialensiau ei hun i'w chanlyn wrth gwrs, ond mae Bangor yn ffodus bod gennym dîm o bobl yma sy'n frwdfrydig, yn ymroddgar a theyrngar i'r Brifysgol. Gyda'n gilydd byddwn yn parhau i roi profiad gwych i'n myfyrwyr a gwneud cyfraniad gwerthfawr i les economaidd a chymdeithasol Cymru a'r byd.

Yr Athro John Hughes
Is-Ganghellor



A handwritten signature of John Hughes in white ink.



1



2



3

UCHAFBWYNTIAU 11/12

Dathlwyd canmlwyddiant **Prif Adeilad y Brifysgol** gyda chynhadledd 'Yr angen am addysg yng Nghymru – ymateb Chwarelwyr Gogledd Cymru', a chyngerdd arbennig gan Gerddorfa Symffoni'r Brifysgol.

Penodwyd **Yr Athro Gary Carvalho** o'r **Ysgol Gwyddorau Biolegol** yn aelod o Bwyllgor Cenedlaethol y DU ar Fioamrywiaeth, a sefydlwyd yn ddiweddar. Bydd y pwyllgor hwn yn rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â bioamrywiaeth a chynrychioli'r DU ar yr *Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystems*.

Cyhoeddodd Prifysgolion Aberystwyth a Bangor **Gyngghrair Strategol newydd** a oedd yn dynodi cam newydd yn y bartneriaeth rhwng y ddau sefydliad. Bydd y gyngghrair yn adeiladu ar y Bartneriaeth Ymchwil a Menter lwyddiannus gwerth £10.9m, a gyllidwyd gan HEFCW ac a sefydlwyd gan y ddwy brifysgol yn 2006.

Cafodd **Neuadd Breswyl John Morris-Jones** ei hagor yn swyddogol ar ôl ei hadnewyddu.

Enillodd **Dr Pauline Horne** a'r **Athro Fergus Lowe** wobwr y *Society for the Advancement of Behavioral Analysis* mewn cynhadledd a gynhaliwyd yn Seattle am eu gwaith arloesol ym maes gordewdra ymysg plant.

Derbyniodd Uned Bryniant y **Swyddfa Gyllid yr Outstanding Procurement Team Award** yn y *Times Higher Leadership and Management Awards* yn 2012.

Bangor oedd y brifysgol gyntaf yn y DU i gael ei **gwasanaeth iechyd galwedigaethol** wedi ei achredu mewn cynllun a reolir gan y *Royal College of Physicians*.

Yn y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn Llundain, llofnodwyd Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y Brifysgol a Hanban (Pencadlys Sefydliad Confucius) i sefydlu **Sefydliad Confucius** mewn cydweithrediad â Phrifysgol Gwyddor Gwleidyddiaeth a'r Gyfraith China, Beijing. Cafodd y Sefydliad ei lansio'n ffurfiol gan Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru.

Rhoddwyd sylw i waith arloesol yr Uned Technolegau Iaith yng **Nghanolfan Bedwyr** wrth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg lansio fersiwn ar-lein o *Geiriadur yr Academi*, Geiriadur Saesneg-Cymraeg yr Academi Gymreig. Ers ei gyhoeddi gyntaf yn 1995 mae'r Geiriadur, campwaith gan Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones, y ddau ohonynt yn gyn ddarlithwyr yn y Brifysgol, wedi bod yn adnodd allweddol i bawb sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gweithle.

Dyfarnwyd OBE yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines i'r **Athro Siân Hope**, Cyfarwyddwr Arloesi ac Athro Cyfrifiadureg.

1. Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth a'r Athro John G Hughes, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor, yn cyhoeddi Cyngghrair Strategol newydd rhwng y ddau sefydliad.

2. O'r chwith: Julian Clary (cyflwynydd y wobwr), Jennifer Wolstenholme, Cyfarwyddwr Pryniant, a Phil Baty, Golygydd *Times Higher Education Rankings*, yn seremoni wobrwyo'r *Times Higher Leadership & Management Awards*.

3. Mr Shen Yang, Gweinidog-Gwnselydd Llysgenhadaeth China; Yr Athro John G Hughes, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor; Yr Athro Huang Jin, Llywydd Prifysgol Gwyddor Wleidyddol a Chyfraith China; a Carwyn Jones, Prif Weinidog, yn dadorchuddio'r plac.



Llun: UMC

1. Cynrychiolwyr o Undeb y Myfyrwyr yn seremoni'r *Green Impact Awards* ym Manceinion.

2. Delyth Prys, Pennaeth Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr efo'r Gweinidog Addysg, Leighton Andrews, yn ystod lansiad *Y Termiadur Addysg*.

3. John Zeisel (chwith) a Barry Reisberg (dde) yn cyflwyno'r Wobr Reisberg yn Efrog Newydd i'r Athro Bob Woods.

Enillodd y Brifysgol wobr **Rhagoriaeth Adnoddau Dynol mewn Ymchwil gan y Comisiwn Ewropeaidd**. Mae'r wobr Ewropeaidd hon yn adlewyrchu'r gwaith parhaus a wneir ym Mhrifysgol Bangor i gefnogi ein staff ymchwil.

Yr Athro Bob Woods, Cyfarwyddwr y Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia, ac Athro Seicoleg Glinigol Pobl Hŷn, oedd derbynnydd rhyngwladol cyntaf Gwobr Reisberg. Mae'r wobr yn cydnabod pobl sydd wedi gwneud cyfraniadau nodedig ym maes trin afiechyd Alzheimer heb ddefnyddio cyffuriau.

Lansiwyd gwefan newydd *Y Termiadur Addysg* yng Nghaerdydd gan Leighton Andrews, Gweinidog dros Addysg a Sgiliau. Mae'r wefan www.termiaduraddysg.org yn cynnwys fersiwn helaethach newydd o'r testun terminoleg poblogaidd. Dyma drydedd fersiwn *Y Termiadur* i'w datblygu gan yr Uned Technolegau Iaith yng **Nghanolfan Bedwyr**.

Lansiodd y Brifysgol ei **gwefan symudol**, gyda cynnwys Cymraeg, Saesneg a Tsieinëeg, wedi'i hanelu'n benodol at ddarpar fyfyrwyr.

Cafodd **Undeb y Myfyrwyr** ei enwi'n Undeb y Flwyddyn (anfasnachol) yn *Green Impact Awards* Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ym Manceinion. Mae'r gwobrau'n cydnabod gwaith amgylcheddol undebau myfyrwyr o gwmpas y wlad.

Fe wnaeth tîm o dri myfyriwr o'r **Ysgol Seicoleg** argraff ar banel o farchnatwyr mwyaf blaenllaw Cymru, gan ennill gyda'r cynnig busnes gorau yn *The Pitch*, her a osodwyd gan *The Chartered Institute of Marketing* a Syniadau Mawr Cymru. Fe wnaeth y tîm guro myfyrwyr marchnata ar draws Cymru mewn ymgyrch gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ysbrydoli pobl ifanc i ddechrau eu busnesau eu hunain.

Mae **Dr Nichola Callow, Dr James Hardy a Dr Calum Arthur** o'r **Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer** wedi derbyn gwobr bwysig gan yr Academi Addysg Uwch (HEA) i gefnogi datblygu addysgu a dysgu ar draws addysg uwch ym Mhrydain. Maent i arwain rhaglen yn ymchwilio i "Effaith goruchwyliaeth drawsffurfiol ar ymroddiad myfyrwyr, dal gafael arnynt a'u llwyddiant."

Derbyniodd Canolfan Astudio R.S. Thomas yn **Ysgol y Saesneg** ac **Ysgol y Gymraeg** gasgliad mawr o lawysgrifau a theipysgrifau, yn cynnwys llawer o ddeunydd heb ei gyhoeddi, o ystâd y diweddar Peter Jolliffe, casglwr amlwg o lyfrau a llawysgrifau llenyddol modern.

Dyfarnwyd ysgoloriaeth ymweld bwysig gan Goleg St John's, Rhydychen, i'r **Athro Tony Bushell**, Athro Almaeneg yn yr **Ysgol Iechyd Modern**, i wneud astudiaeth yn ymdrin â rhethreg hunaniaeth Awstriaidd.

Fe wnaeth project a sefydlwyd gan **Joanna Wright**, darlithydd yn yr **Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau**, mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Ysgol Bro Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd, ennill gwobr yn y Cynllun Ysgolion Treftadaeth Gymreig.

Ymunodd grŵp newydd o staff â Bangor o Brifysgol Caerdydd. Mae **Canolfan Gofal Sylfaenol Gogledd Cymru** yn grŵp ymchwil/dysgu sydd nawr yn rhan o'r Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad.



Datblygu Academiaidd. Gymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol gan yr Academi Addysg Uwch. Hon yw'r wobwr bwysicaf am ragoriaeth mewn addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch. Dyma'r tro cyntaf i aelod staff o Brifysgol Bangor dderbyn y wobwr. Fe'i canmolwyd am ei waith ar gynhwysedd, ymchwil i lawer agwedd ar addysgu a dysgu mewn addysg uwch, gwaith gyda Chymdeithas Staff a Datblygu Addysgol a chydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi staff ym Mangor a sefydliadau addysg uwch ar draws Cymru i astudio drwy'r iaith o'u dewis.

Derbyniodd yr **Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata** 'Grybwylliad Anrhydeddus' am ansawdd prospectws y Brifysgol yn y *PR, Marketing and Communications Awards 2011* a gynhelir gan *The Association of Commonwealth Universities (ACU)* yn flynyddol.

Derbyniodd Dr Enrico Onali, darlithydd yn **Ysgol Busnes Bangor**, wobwr am bapur a gyflwynodd mewn cynhadledd bwysig ar fancio a chyllid yn yr Eidal. Enillodd ei bapur, gyda'r teitl '*Moral Hazard, Dividends, and Risk in Banks*' y wobwr 'Economegydd Ifanc Gorau'.

Derbyniodd y Brifysgol **Wobwr Efydd Athena Swan** i gydnabod ei llwyddiant yn recriwtio, cadw a dyrchafu merched ym meysydd Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg. Mae Bangor yn awr yn un o 38 prifysgol ym Mhrydain sydd wedi derbyn gwobr efydd dan Siarter Athena SWAN i Ferched mewn Gwyddoniaeth.

Derbyniodd **Evelyne Schmid**, darlithydd yn **Ysgol y Gyfraith**, wobwr ymchwil bwysig gan yr *Academic Platform Switzerland UN*, sef rhwydwaith sy'n anelu at feithrin arloesi a rhagoriaeth mewn ymchwil ar faterion yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol a'r Cenhedloedd Unedig.

Gwahoddwyd yr **Ysgol Gwyddorau Eigion** i arddangos ei gwaith yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn yr arddangosfa ym Mhalas Westminster rhoddwyd sylw i ddetholiad o'r ymchwil arloesol a wneir yn yr Ysgol, gan ganolbwyntio ar ffyrdd y gall amgylchedd y môr gael ei ddefnyddio'n gynaliadwy am flynyddoedd i ddod.

Lansiwyd y project arloesol, **Elevate Cymru**, gan **Ysgol Busnes Bangor**. Mae hon yn rhaglen ddysgu arloesol yn y gweithle, sy'n galluogi cyflogwyr a gweithwyr i gael hyfforddiant wedi'i gyllido'n llawn ar



1. Llŷr Titus Hughes wedi iddo dderbyn Medal Ddrama Eisteddfod yr Urdd 2012.

2. Derbyniwyd Gwobr Efydd Athena Swan ar ran y Brifysgol mewn digwyddiad ym Mirmingham gan Dr Rosanna Robinson, Cydlynnydd Dysgu ac Addysgu, Coleg y Gwyddorau Naturiol (ar y chwith) a Lyn Meadows, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

gyrsiau'n ymwneud â gwaith, gyda'r bwriad o annog twf a chynaliadwyedd at y dyfodol.

Mae Dr Christine Cahalan, Pennaeth **Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Gwyddoniaeth**, wedi derbyn Gwobr Peter Savill am 2012. Mae'r wobwr, a gyflwynir yn flynyddol gan yr *Woodland Heritage*, yn cydnabod y cyfraniad sylweddol a wnaed gan unigolyn i faes Coedwigaeth ym Mhrydain, sef i Addysg Goedwigaeth yn yr achos hwn.

Dyfarnwyd '**Gwobr Ysbrydoli Cymru**', a noddir gan y Sefydliad Materion Cymreig a'r Western Mail, i'r Brifysgol yn dilyn ei llwyddiant yn y categori 'Gweithle Dwyieithog'.

Agorwyd cyfleuster diwydiannol gwerth £1M ar Ynys Môn, ac fe'i gweithredir gan y **Ganolfan BioCyfansoddion**. Mae wedi bod yn helpu cwmnïau lleol i brofi deunyddiau newydd, cyfeillgar i'r amgylchedd, y gellir eu defnyddio yn lle rhai presennol. Mae'r Ganolfan Trosglwyddo Technoleg yn rhan o broject BEACON i Gymru gyfan. Partneriaeth yw hon rhwng Prifysgolion Bangor, Aberystwyth ac Abertawe sy'n cynorthwyo cwmnïau Cymreig lleol i ganfod defnydd newydd i blanhigion a chyd-gynhyrchion planhigion.

Enillodd **Llŷr Titus Hughes**, myfyriwr yn **Ysgol y Gymraeg**, y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2012.

3. O'r chwith: Heather Fry (HEFCE), Yr Athro Caroline Gipps (Cadeirydd Panel Cyngori CCA), Dr Charles Buckley o Brifysgol Bangor a'r Athro Syr Robert Burgess, Cadeirydd Bwrdd AAU, yn ystod noson wobrwyo Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol.



Cyflwynwyd Doethuriaeth er Anrhydedd i'r canwr opera byd-enwog **Bryn Terfel CBE (9)** am ei gyfraniad i gerddoriaeth. Ym Mai bu'n perfformio mewn cyngerdd arbennig yn Neuadd Prichard-Jones i nodi ei chanmlwyddiant.

Cyflwynwyd Cymrodoriaethau er Anrhydedd i nifer o bobl yn Seremonïau Graddio'r Brifysgol. Y rhain oedd: **Yr Athro Steve Jones (1)**, Athro Geneteg yn University College London (UCL); **Yr Athro Tony Jones CBE (2)**, a fu'n Llywydd yr Ysgol

Gelf, Institute of Chicago; **Yr Athro Malcolm Evans OBE (3)**, un o gyfreithwyr rhyngwladol amlycaf Prydain; **Yr Athro Catherine McKenna (4)**, Athro leithoedd a Llenyddiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Harvard; **Dr Gwyneth Lewis (5)**, Bardd Cenedlaethol Cymru 2005-06 ac enillydd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2012; **Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Barry Jones (6)**, cyn AS dros Alun a Glannau Dyfrdwy, gweinidog yn y llywodraeth ac un o raddedigion y Coleg Normal; **John Gibb Marshall (7)**, a adwaenir hefyd fel John Sessions, actor ac awdur ac un o raddedigion Bangor, sydd wedi cael gyrfa actio dra llwyddiannus – gan chwarae rhan Edward Heath yn ddiweddar yn y ffilm *The Iron Lady*; **Bleddyn Wynn-Jones (8)**, Gerddi Crûg, casglwr a meithrinwr planhigion.

UCHAFBWYNTIAU 11-12

DYSGU AC ADDYSGU



Dr Faye Short, Athrawes y Flwyddyn.

GWOBRAU DYSGU DAN ARWEINIAD MYFYRWYR

Bu dros ddau gant o fyfyrwyr, cynrychiolwyr cyrsiau a staff y Brifysgol yn dathlu'r Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr, y cyntaf i'w gynnal ym Mangor. Gwnaed cais llwyddiannus gan Undeb Myfyrwyr Bangor am gyllid i gymryd rhan mewn cynllun peilot a gefnogir gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) a'r Academi Addysg Uwch (AAU). Roedd cais Bangor yn un o 21 o geisiadau llwyddiannus ledled y wlad, ac ariannwyd y gwobrau gydag arian cyfatebol gan Brifysgol Bangor.

Cyflwynwyd dros 300 o enwebiadau gan fyfyrwyr ar ran 180 o wahanol aelodau staff o bob un o ysgolion academiaidd y Brifysgol. Cynhaliwyd y broses enwebu ar-lein drwy

wefan Undeb y Myfyrwyr. Roedd pymtheg categori yn cynnwys yr addysgwyr gorau a'r goruchwyliwr traethawd hir gorau.

Gwahoddwyd pob aelod staff oedd ar y rhestr fer i'r cinio gwobrwyo a chyflwynwyd tystysgrif a mwg iddynt i gydnabod eu cyflawniad. Hefyd, cafodd enillydd pob categori dlws gwydr, a gyflwynwyd gan yr Athro Colin Baker, y Dirprwy Is-Ganghellor dros Addysgu a Dysgu.

"Roedd y gymeradwyaeth uchel, y gwerthfawrogiad a'r hwyl yn golygu bod y digwyddiad hwn i fyfyrwyr a staff yn Neuadd PJ yn ddigwyddiad bythgofiadwy i bawb," meddai'r Athro Colin Baker.

GWELLA PROFIAD MYFYRWYR

Mae dwy fenter strategol bwysig wedi cael eu sefydlu eleni er mwyn gwella profiad myfyrwyr ym Mangor. Lansiodd y Brifysgol Strategaeth Gwella Profiad Myfyrwyr, sy'n dod ag aelodau staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda myfyrwyr ledled y sefydliad ynghyd er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar brofiad myfyrwyr ym Mangor cystal ag y gall fod. Fel rhan o Gynllun Ffioedd y Brifysgol ar gyfer 2012/13, cyflwynwyd nifer o fentrau newydd er mwyn gwella profiad y myfyrwyr.

Mae'r rhain yn cynnwys Canolfan Sgiliau Astudio newydd wedi ei lleoli yn Llyfrgell Prif Adeilad y Celfyddydau. Hefyd, caiff cynllun Gwobr Cyflogadwyedd Bangor, a gafodd ei beilotu'n llwyddiannus mewn nifer o ysgolion, ei gyflwyno ledled y sefydliad. Ceir hefyd raglen drin barhaus i sicrhau bod mwyafrif llethol yr ystafelloedd dysgu o safon ragorol ac mae'r Brifysgol wrthi'n gwella ansawdd y neuaddau preswyl ymhellach. Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys ailwampio Neuadd Garth yn gyfan gwbl.

Un o ymrwymadau mwyaf y cynllun ffioedd yw y bydd aelodaeth o'r holl glybiau a chymdeithasau myfyrwyr am ddim o fis Medi 2012. Mae hyn, ynghyd â rhyddhau pob prynhawn Mercher i fyfyrwyr gael

cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol a phenodi Cyfarwyddwr Chwaraeon newydd, yn golygu bod mwy o gyfle i fyfyrwyr gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau eraill.



Maes:Space, lle dysgu cymdeithasol yn Llyfrgell Prif Adeilad y Celfyddydau.



ANSAWDD RHAGOROL

Mae Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn gorff annibynnol a'i waith yw diogelu safonau ac ansawdd mewn addysg uwch. Mae'r broses arolygu wedi datblygu dros y blynyddoedd: mae'r 'arolwg sefydliadol' (a gynhelir oddeutu bob 5 mlynedd) yn canolbwyntio ar archwiliad o'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'r Brifysgol wedi eu sefydlu i sicrhau ansawdd a safonau, ac a ydynt yn gweithio mewn gwirionedd.

Yn 2011/12, tro Bangor oedd cael arolwg sefydliadol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, hwn oedd y pumed arolwg ers i archwilio prifysgolion ddechrau yn gynnar yn y 1990au. Roedd y broses arolygu yn cynnwys y canlynol:

- cyflwyno dogfen hunanwerthuso 100 tudalen gan y Brifysgol,
- cyflwyniad ysgrifenedig annibynnol gan fyfyrwyr,
- cyfweiliadau gyda dros 75 o aelodau staff a myfyrwyr, ac
- archwilio dros 1,000 o bolisïau a dogfennau eraill y Brifysgol

Daeth y broses i ben gydag ymweliad wythnos o hyd ym mis Mai 2012 gan y tîm o 5 o arolygwyr allanol, sef staff uwch o

brifysgolion eraill, ynghyd ag un arolygwr oedd yn fyfyrwr.

Y canlyniad oedd dyfarniad o **'Hyder'** gan arolygwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yng nghadernid "rheolaeth bresennol y Brifysgol o ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr a safonau academiaidd, a'u rheolaeth debygol ar gyfer y dyfodol." Dyma'r uchaf o'r tri dyfarniad y gellir eu cael, ac mae'n hwb mawr i statws a phroffil academiaidd y Brifysgol.

Yn ogystal ag archwilio polisi a dulliau gweithredu cyffredinol y Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau, talodd tîm yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd sylw arbennig o agos i ddarpariaeth a gyflwynir mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill (fel Prifysgol Aberystwyth neu Goleg Llandrillo, lle mae tua 400 o fyfyrwyr yn astudio am gymwysterau Prifysgol Bangor).

Cyhoeddwyd yr adroddiad llawn ym mis Hydref ac mae ar gael ar wefan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Roedd hefyd yn tynnu sylw at y "nodweddion o arfer da" ym Mangor:

- Gwaith Canolfan Dyslecsia Miles lle'r oedd ymchwil yn ychwanegu at y

gefnogaeth i fyfyrwyr

- Y cynllun Arweinwyr Cyfoed sy'n cyflwyno myfyrwyr i fywyd prifysgol
- Gwaith Canolfan Bedwyr yn ychwanegu at ddarpariaeth Gymraeg

Yn ddiamheuol mae'r canlyniad yn bleidlais o ymddiriedaeth sylweddol yng ngwaith y Brifysgol o reoli ansawdd a safonau academiaidd. Meddai'r Is-Ganghellor, yr Athro John G. Hughes: "Mae'r canlyniad hwn yn deyrnged i ymroddiad yr holl staff i ansawdd a safonau uchel yn ein holl weithgarwch - ansawdd yn wir yw ein harwyddair, boed hynny mewn addysgu a dysgu, gofal bugeiliol, cefnogaeth academiaidd, goruchwyliaeth ymchwil, neu wrth gefnogi'r profiad ehangach i fyfyrwyr. Rydw i'n llongyfarch yn gynnes pob cydweithiwr ar gyflawni'r dyfarniad hwn."

Dyweddodd y Cofrestrydd, Dr David Roberts, a gadeiriodd Grŵp Tasg yr Arolwg Sefydliadol a fu'n paratoi ar gyfer yr arolwg: "Roedd hwn yn ddiamheuol yr arolwg allanol mwyaf trylwyr o weithgarwch academiaidd yr ydym wedi ei gael - ac mae'n ganlyniad hynod foddhaus i baw sy'n ymwneud â'r Brifysgol."



CYFRWNG CYMRAEG

SAFONAU RHAGOROL AR GYFER DYSGU CYMRAEG

Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru, sy'n rhan o'r Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes, wedi derbyn y clod uchaf posibl gan yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant, Estyn, am ansawdd ei darpariaeth.

Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru sy'n gyfrifol am gydlynw'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ar draws gogledd Cymru, gan weithio gydag wyth o ddarparwyr annibynnol i sicrhau'r safonau uchaf o ran dysgu. Mae'r ganolfan hefyd yn gweithredu fel siop-un-stop ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn y rhanbarth ac yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac adnoddau

i'w rhoi ar y trywydd iawn ac i gael y profiad dysgu gorau bosibl.

Prif ganfyddiadau'r Arolygwyr yw bod perfformiad presennol y Ganolfan yn "rhagorol" - y dyfarniad uchaf posibl. Cyfeiriodd Estyn yn ei adroddiad at nifer o nodweddion rhagorol yng ngwaith y Ganolfan ac yn arbennig safon uchel yr addysgu, yr hyfforddiant a ddarperir i diwtoriaid, a dysgwyr yn cyflawni gwell canlyniadau nag mewn unrhyw ardal arall yng Nghymru. Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at y dewis eang ac amrywiol o gyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr Cymraeg,

yng hysbysu'r holl gefnogaeth sydd ar gael iddynt y tu allan i'r dosbarth ar ffurf gweithgareddau cymdeithasol.

Canmolwyd y Ganolfan am ei rheolaeth a'i harweinyddiaeth gref. Mae gan y Ganolfan weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol ac y mae'n benderfynol o adeiladu ar ei seiliau cadarn a chynnal rhagoriaeth ymhob agwedd ar ei darpariaeth.

DARLUNIO TRADDODIAD

Ers ei sefydlu yn 2011, bu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig nawdd a chefnogaeth ariannol ar gyfer cynlluniau ymchwil o bwys strategol ac i gynhyrchu adnoddau fydd o gymorth i fyfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyfarnwyd naw grant (gwerth rhwng £8,000 a £45,000) i Brifysgol Bangor eisoes ar gyfer projectau allweddol ym maes Seicoleg, Technoleg Iaith, Rheolaeth Amgylcheddol, Marchnata, Hanes Cymru, Cymdeithaseg, Cerddoriaeth, Dwyieithrwydd ac Astudiaethau Creadigol.

Gyda chefnogaeth y gronfa hon a than gyfarwyddyd Dr Pwyll ap Siôn (Uwch-darlithydd yn yr Ysgol Cerddoriaeth) sefydlwyd cynllun i gyhoeddi 'Cydymaith i Gerddoriaeth yng Nghymru' fydd yn darlunio agweddau amrywiol ar y traddodiad ac yn cynnig sylwadau beirniadol gan dîm o arbenigwyr ar ddylanwad y maes ar fywyd diwylliannol amlweddol ein cenedl.

Cynhaliwyd cynhadledd eisoes yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth i lansio'r cynllun cyffrous hwn a sylweddolwyd bryd hynny fod y galw am gyhoeddiad o'r fath yn fawr a'r her i'w gyflawni yn fwy. I'r sawl sy'n ymddiddori yng nghyfoeth y traddodiad ac i garedigion y grefft, y gobaith yw y gwelir cyhoeddiad fydd yn ymdrin â chanu gwerin a'r clasurol, y cynnar a'r cyfoes - o gyfnod Robert ap Huw hyd at gynnyrch Karl Jenkins a'i debyg, o ganu'r crwth a'r pigorn hyd at berfformiadau diweddaraf byd cerddoriaeth bop.

Er mor amrywiol yw'r arbenigedd ym Mhrifysgol Bangor, bydd y cynllun yn cynnwys nifer o ysgolheigion o'r tu hwnt i'r sefydliad. Yn wir, un o brif amcanion y project yw cryfhau cysylltiadau a diddordebau yn y maes hwn ymysg unigolion a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a thu hwnt i'r ffin.

Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL A CHYNLLUNIAU DYSGU 'AR-LEIN'

Yn dilyn grant o £25,000 a ddyfarnwyd i Brifysgol Bangor yn ystod misoedd yr haf gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sefydlwyd ystafell fideo-gynadledd newydd sbon yng Nghanolfan Bedwyr (Neuadd Dyfrdwy) i ennyn cydweithio pellach rhwng canolfannau addysg uwch yng Nghymru. Bydd y cyfleuster newydd hwn yn rhoi modd i aelodau staff, ymchwilwyr a myfyrwyr ym Mangor gynnal darlithiau, seminarau, cynadleddau un-dydd a phwyllgorau fydd yn berthnasol i ddiddordebau dysgu a meysydd ysgolheictod cyfrwng Cymraeg a hynny mewn cydweithrediad â chyfeillion yn y byd addysg led led Cymru. Bydd yr adnodd gwerthfawr hwn yn galluogi i adrannau academiaidd unigol gyrraedd allan i ysgolion a cholegau 6ed Dosbarth sy'n cynnal eu darpariaeth yn y Gymraeg ac i genhadu ymhlith darpar-fyfyrwyr y dyfodol.


Ers deunaw mis bellach, fe ddaeth darlithio 'o bell' yn rhan naturiol o brofiadau dyddiol myfyrwyr ac aelodau

staff y Brifysgol hon - a hynny er mwyn rhannu arbenigeddau mewn meysydd sy'n gryfderau yma ym Mangor, yn ogystal ag ehangu'r cyfleoedd i astudio testunau llai cyfarwydd sydd ar gael mewn sefydliadau eraill. Bu'r Ysgol Cerddoriaeth ym Mangor, er enghraifft, yn arloesi yn y maes hwn ers peth amser drwy gyfrwng ei chyfres ddarlithiau 'Cerddoriaeth ar-lein', lle mae modd i fyfyrwyr o Gaerfyrddin a Chaerdydd gael cyflwyniadau mewn meysydd fel 'Cyfansoddi a ffilm', 'Cerddoriaeth boblogaidd', 'Cerddoriaeth mewn iechyd a lles', yn ogystal â chwrs cyfan ar 'Gerddoriaeth Cymru heddiw' a hynny dan arweiniad darlithwyr ifanc cyfrwng Cymraeg yr Ysgol sy'n derbyn nawdd a chefnogaeth Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ond er cystal y dechnoleg a gallu anghyffredin y cyfarpar, nid yw'n debygol y gall hyn guro darlithiau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae'n ffordd arbennig o ddefnyddio o osgoi'r teithio diangen yn aml rhwng gogledd a de gan staff a myfyrwyr.



Dr Tristan Evans yn traddodi darlith 'Cerddoriaeth Cymru Heddiw' ym Mangor.

RHYNGWLADOLI



BANGOR YN CODI PONT DDIWYLLIANNOL

Mae Prifysgol Bangor wedi agor y Sefydliad Confucius cyntaf yn y byd i ganolbwyntio ar Y Gyfraith. Lansiwyd y Sefydliad Confucius gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones, ym mhresenoldeb Mr Shen Yang, Gweinidog-Gynghorwr o Lysgenhadaeth China.

Fe wnaeth dirprwyaeth o sefydliad partner Prifysgol Bangor, sef Prifysgol Gwyddor Gwleidyddiaeth a Chyfraith China, dan arweiniad ei Llywydd, yr Athro Huang Jin, ymweld â Bangor yn arbennig ar gyfer y seremoni agoriadol.

Meddai'r Prif Weinidog: "Bydd China'n gynyddol bwysig i ddyfodol Cymru ac mae'r

Sefydliad Confucius newydd hwn, y cyntaf o'i fath yn y byd i ganolbwyntio ar y gyfraith, yn hwb sylweddol i greu cysylltiadau pellach rhwng ein dwy wlad.

Meddai'r Athro John Hughes, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor: "Mae hwn yn ddatblygiad mawr i Brifysgol Bangor. Mae Sefydliadau Confucius yn lledaenu gwybodaeth am iaith a diwylliant China. Maent wedi dod yn gyfryngau ar gyfer cyfnewidiadau diwylliannol rhwng China a'r byd. Bydd y Sefydliad ym Mangor yn chwarae rhan allweddol yn rhannu diwylliant a dysg Tsieineaidd ag ysgolion a sefydliadau diwylliannol yng ngogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr, wrth iddo

ddatblygu rhaglen o weithgareddau diwylliannol."

Meddai Llywydd Prifysgol Gwyddor Gwleidyddiaeth a Chyfraith China, Yr Athro Huang Jin: "Mae Prifysgol Bangor yn adnabyddus am ei thraddodiad diwylliannol a'i haddysg o safon uchel, tra bo Prifysgol Gwyddor Gwleidyddiaeth a Chyfraith China yn Brifysgol amlwg ym maes addysg y gyfraith yn China. Rwy'n credu y bydd sefydlu'r Sefydliad Confucius, a fydd yn canolbwyntio ar y Gyfraith, yn dyfnhau'r cydweithio a chyfathrebu rhwng y ddau sefydliad yn ogystal â rhwng y ddwy wlad."

PRIFYSGOL RYNGWLADOL

Mae'r Brifysgol wedi gwneud cynnydd cychwynnol o ran cyflawni ei dyhead i fod yn Brifysgol Ryngwladol ar gyfer y rhanbarth. Erbyn hyn mae colegau wedi lansio eu cynlluniau datblygu rhyngwladol eu hunain yn canolbwyntio ar ddatblygu cwricwlwm, cefnogaeth i fyfyrwyr rhyngwladol a symud allanol ymysg staff a myfyrwyr.

Nod y Brifysgol yw cael ei gweld yn amlwg ledled y byd. Y nod yw cael corff sylweddol o fyfyrwyr rhyngwladol (daw 16% o fyfyrwyr Bangor o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd) a staff dysgu (daw 25% o staff academiaidd Bangor o'r tu allan i'r DU). Bwriedir cael cynnwys rhyngwladol cryf i gysiau, a dulliau cyflwyno priodol, yn ogystal â nifer addas o gyfleoedd amrywiol i astudio dramor. Mae ymweliadau proffil uchel â China, Brasil a'r Unol Daleithiau wedi sicrhau bod brand Bangor wedi cael sylw mawr ar y llwyfan addysg uwch rhyngwladol.



Roedd darparu cydweithio rhyngwladol yn rhan o arolwg sefydliadol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a gynhaliwyd ym mis Mai 2012. Rhoddodd canlyniad cadarnhaol yr arolwg yr hyder i'r Brifysgol ddatblygu strategaeth datblygu partneriaeth gynhwysfawr gan ganolbwyntio ar Addysg Drawswladol (TNE). Un garreg filltir bwysig yw bod y Brifysgol wedi llwyddo i ddilysu rhaglen MBA yn China ar y cyd ag un o brifysgolion gorau China, sef *Research*

Institute of Tsinghua University.

Cwblhawyd y project £2.5 miliwn i adnewyddu rhan o Rathbone ym mis Mehefin 2012, sydd wedi rhoi Canolfan Addysg Ryngwladol, gyda swyddfa bwrpasol o ansawdd da yn cynnig gwasanaeth siop un stop i fyfyrwyr rhyngwladol y Brifysgol a'r partneriaid.

YSGOLION HAF RHYNGWLADOL

Daeth mwy na chant o fyfyrwyr o bedwar ban byd i wahanol ysgolion haf rhyngwladol a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor rhwng Gorffennaf ac Awst.

Gan gydweithredu â Phrifysgolion Caerdydd ac Aberystwyth, croesawodd Bangor ddychweliad Sefydliad Haf Fulbright yng Ngorffennaf. Bu wyth o Ysgolorion Fulbright, sydd ymysg myfyrwyr israddedig mwyaf disglair America, yn treulio pythefnos ym Mhrifysgol Bangor, gan astudio treftadaeth ddiwylliannol Cymru. Dewiswyd y myfyrwyr trwy gystadleuaeth ymysg Prifysgolion ar draws UDA, o Seattle i Dde Florida, ar gyfer y sefydliad astudio uchel ei statws. Tra oeddent ym Mangor, bu'r myfyrwyr yn astudio'r digwyddiadau, y lleoedd a'r bobl sydd wedi ffurfio Cymru, ynghyd â'r dylanwad allweddol a gafodd diwydiant arnynt i gyd. Buont yn archwilio effaith diwydiannau megis twristiaeth, mwynloddio llechi ac amaeth ar yr ucheldiroedd, a'r modd y gall cenedl fach gynnal ei hunaniaeth mewn cyfnod o fyd-gyfannu.

Cynhaliodd yr Ysgol Haf ar Ddwyieithrwydd gyfarfod cyntaf llwyddiannus iawn yng Ngorffennaf. Denodd ymchwilwyr a

myfyrwyr o lawer o wledydd. Cyflwynwyd sgysiau ysgogol gan ymchwilwyr blaenllaw ym meysydd Dwyieithrwydd, leithyddiaeth, Seicoleg a Gwyddorau Cymdeithas o Brifysgol Bangor, Prifysgol Maryland, Prifysgol Aix-Marseille, Prifysgol Dinas Efrog Newydd, Prifysgol McGill, Prifysgol Düsseldorf, Prifysgol Reading, Prifysgol Tübingen, Prifysgol Hawaii, a Prifysgol Radboud, Nijmegen, a Phrifysgol Caergrawnt.

Profodd Ysgol Haf y Meddwl Greddfod (*Visceral Mind*) yn boblogaidd, a hithau bellach yn ei 3edd flwyddyn, a 40 o

ymchwilwyr ifainc uchelgeisiol yn awyddus i gyfranogi yn arbenigedd penigamp yr Ysgol Seicoleg ym maes niwrowyddoniaeth wybyddol. Prif nod yr ysgol haf oedd unioni'r prinder o wybodaeth niwroanatomegol a geir ymysg niwrowyddonwyr ifainc, a hynny, o leiaf yn rhannol, oherwydd y diffyg o ran meinwe ymenyddol dynol sydd ar gael i ddarparu'r hyfforddiant hwn i fyfyrwyr y tu allan i UDA. Ers 3 blynedd, mae'r cwrs hwn wedi denu 120 o fyfyrwyr o 20 o wledydd ar draws y byd, yn cynnwys Ariannin, Ciwba, yr Eidal, Lithwania, De Affrica a Singapôr.



Grŵp Fulbright o America.

BANGOR YN CYNHYDDU CYFLYMDER BAND EANG

Mae ymchwilwyr yn yr Ysgol Peirianeg Electronig yn gweithio ar broiect a allai gynyddu cyflymder band eang 2,000 o weithiau.

Bydd y dechnoleg chwyldroadol yn defnyddio'r ceblau rhyngwrdd optegol presennol ac yn ei gwneud yn bosibl i gwsmeriaid lawr lwytho 20 prif ffilm mewn un eiliad.

Bydd y dechnoleg hefyd yn arbed arian i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwerthwyr yr offer o ran costau gosod a chynnal a chadw'r rhwydwaith. Mae hefyd yn amgylcheddol gyfeillgar gan ei fod yn defnyddio llai o drydan.

Mae'r tîm, dan arweiniad yr Athro Jianming Tang o'r Ysgol Peirianeg Electroneg, yn gweithio'n awr ar wneud y dechnoleg newydd yn rhywbeth y gellir ei gwerthu'n fasnachol.

Meddai, "O'i gymharu â'r cysylltiadau band eang sydd ar gael yn fasnachol heddiw, disgwylir i'r dechnoleg roi i ddefnyddwyr gyflymder lawr lwytho ac uwch lwytho hyd at 2,000 o weithiau'n gyflymach na'r cyflymder presennol. Bydd yn cynnig gwasanaethau o ansawdd gwarantedig am yr un pris ag y mae tanysgrifwyr yn ei dalu ar hyn o bryd am eu gwasanaethau 20Mb/s presennol, lle bynnag fo eu cartref. Wrth gwrs, bydd hyn yn chwyldroi technoleg gyfathrebu."

"Mae'r dechnoleg, *Optical Orthogonal Frequency Division Multiplexing* (OOFDM), yn rhoi system fwy hyblyg a pherfformiad cadarn rhagorol." Y broblem bresennol gyda rhwydweithiau optig ffibr yw bod camgymeriadau'n digwydd yn amlach wrth i hyd y cebl gynyddu.

Mae partneriaid sy'n gweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu'r project yn cynnwys cwmnïau technoleg o safon fyd-eang a sefydliadau ymchwil blaenllaw: Fujitsu Semiconductors GmbH, Fujitsu Labs, Finisar Israel, Fraunhofer Heinrich Hertz Institute, VPIsystems GmbH, a Phrifysgol Essex. Mae'r project yn werth dros dri miliwn Euro ac fe'i hariennir gan yr Undeb Ewropeaidd.

YMCHWIL

HELPU RHINI I DDYSGU CYMRAEG

Mae myfyriwr PhD yn yr Ysgol Addysg wedi bod yn gweithio gydag S4C i ddarparu gwasanaeth newydd, arloesol a fydd yn annog rhieni di-Gymraeg i ddysgu Cymraeg tra byddant yn mwynhau rhaglenni teledu gyda'u plant.

Mae ymchwil Nia Williams yn canolbwyntio ar ddefnyddio gwahanol ddulliau o gyflwyno'r Gymraeg i'r cartref ac ar archwilio'r effeithiau a gaiff datblygiad rhaglenni teledu Cymraeg ar blant o gefndiroedd Saesneg.

Mae'r rhaglenni'n rhan o *Cyw*, cyfres deledu Gymraeg i blant, yn bennaf ar gyfer ystod oedran 3-6. Mae *Ti, Fi a Cyw* yn adnodd digidol newydd a fydd yn darparu geiriau, cyfieithiadau ac awgrymiadau allweddol i'w defnyddio ochr yn ochr â rhai o raglenni mwyaf poblogaidd *Cyw*. Yn ystod slot *Cyw*, bydd

ffrwd newyddion byw i Twitter, @tifiacyw, ar waith, fel y gall rhieni fwynhau gwers Gymraeg ysgafn ac anffurfiol wrth ddilyn y ffrwd newyddion Twitter byw ar eu cyfrifiadur personol, eu tabled neu eu ffôn symudol tra byddant yn gwylio.

Meddai Sioned Wyn Roberts, Comisiynydd Rhaglenni Plant S4C, "Bydd gwasanaeth newydd @tifiacyw yn annog rhieni di-Gymraeg a dysgwyr i ymuno â'r hwyl o wyllo *Cyw* gyda'u plant, ac yn gyfle iddynt ddysgu'r iaith yr un pryd. Rydym yn gobeithio rhoi'r hyder i rieni fynd ati i ddysgu Cymraeg yn ffurfiol os dymunant wneud hynny."

Cyllidir ysgoloriaeth ymchwil Nia dan Raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Ysgoloriaeth Sgiliau ar gyfer yr Economi Wybodaeth (KESS).





YMCHWILIO I AGWEDDAU'R CYHOEDD

Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, mae Dr Robin Mann o'r Ysgol Gwyddorau Cymdeithas a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) wedi bod yn ymchwilio i agweddau'r cyhoedd yng Nghymru at fewnfudo. Yn seiliedig ar ddadansoddi data o'r Arolwg Cymdeithasol Ewropeaidd, gwelodd fod tueddiad i bobl yng Nghymru a rhanbarthau Lloegr ddangos mwy o gefnogaeth i leihau mewnfudo na phobl yn Llundain, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dengys yr ymchwil er bod pobl yn gyffredinol yn cefnogi'n gryf y dylid lleihau nifer y mewnfudwyr i'r DU, ceir gwahaniaethau amlwg yn y rhanbarthau o ran barn pobl am fewnfudo. Er mai dim ond astudiaeth archwilio fechan yw hon, ceir am y tro cyntaf ddarlun cyffredinol o farn pobl Cymru am bobl yn mewnfudo o du allan i'r DU.

Yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig i Dr Mann yw pam bod yr Alban yn dangos llai o gefnogaeth dros leihau mewnfudo na Chymru. Fel yr eglura, "Mae'r gwahaniaeth

rhwng Cymru a'r Alban yn ddiddorol oherwydd fel cenhedloedd sydd wedi'u datganoli byddem yn disgwyl bod ganddynt agweddau tebyg ynglŷn ag ystod eang o faterion polisi cyhoeddus. Ond mae'n ymddangos bod barn pobl Cymru am bolisi mewnfudo yn nes at farn y mwyafrif yn Lloegr na'r farn yn yr Alban."

Adroddwyd am yr ymchwil hon gan BBC Wales ac fe'i codwyd hefyd yng Nghyfarfod Llawn y Senedd ym Mae Caerdydd. Mae Dr Mann yn bwriadu ymchwilio ymhellach i hyn trwy wneud gwaith maes ethnograffig, yn siarad ac yn treulio amser gyda phobl er mwyn gweld a yw'r agweddau hyn yn effeithio ar gysylltiadau cymunedol.





PROJECT ELISEG YN DATGELU EI GYFRINACH

Fe wnaeth archeolegwyr o'r Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg gwblhau trydydd tymor o gloddio wrth Golofn Eliseg, rhan o groes garreg o'r nawfed ganrif OC, sy'n sefyll ar dwmpath gerllaw Abaty Glyn y Groes, y tu allan i Langollen.

Ar un adeg roedd arysgrif Ladin faith ar y Golofn yn nodi i'r groes gael ei chodi gan Cyngen, brenin teyrnas Powys, a fu farw yn 854 OC, er cof am ei hen daid, Eliseg, a oedd wedi ymlid goresgynwyr Eingl-Sacsonaidd o'r ardal. Nid oedd y Golofn ar ei thraed erbyn yr ail ganrif ar bymtheg, ond cofnodwyd yr arysgrif dreuliedig gan yr hynafiaethydd Cymreig enwog, Edward Lhuyd, yn 1696. Yn 1773 fe wnaeth y tîrfeddiannwr lleol gloddio i mewn i'r twmpath pridd ac ailgododd y Golofn.

Datgelodd y cloddiadau diweddar garnedd ymylfaen o'r Oes Efydd Gynnar, gyda'r ffos a agorwyd gan hynafiaethwyr y ddeunawfed ganrif yn mynd drwyddi. Cloddwyd cistiau claddu carreg, gydag un yn cynnwys llawer o esgyrn wedi'u llosgi, cylllell gallestr a darn o bin wedi'i gwneud o asgwrn.

Mae'r project yn rhan o waith gan Cadw i ddiogelu'r twmpath ac egluro'r heneb yn well i'r cyhoedd. Cyllidwyd y project gan Cadw, The Society of Antiquaries of London, the Prehistoric Society, Cymdeithas Archeolegol Cambrian, y Sefydliad Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar (Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth), Prifysgol Bangor, Prifysgol Caer a Phrifysgol Cymru.

YMCHWIL

Cloddio carnedd o'r Oes Efydd ar safle Colofn Eliseg.



YMCHWIL FYDD O FUDD I ATHLETWYR AMLWG Y DYFODOL

Bu eleni yn flwyddyn gofiadwy iawn yn y byd chwaraeon, o Gymru'n ennill y Gamp Lawn i Bradley Wiggins yn ennill y Tour de France, i berfformiad campus Tîm Prydain yn ennill lluo o fedalau Olympaidd a Phara Olympaidd.

Mae digwyddiadau chwaraeon mor amlwg â hyn yn rhoi athletwyr gan bwysau mawr: bydd rhai ohonynt yn ffynnu dan y pwysau hwn, tra bydd eraill yn 'mygu'. Mae ymchwilyr yn y Sefydliad Seicoleg

Perfformio Elit (IPEP) yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, lechyd ac Ymarfer wedi bod yn edrych sut y gall personoliaeth ddarogan pa mor dda y bydd athletwyr yn perfformio dan bwysau. Fe wnaethant ddarganfod bod athletwyr â phersonoliaeth narsisaidd yn tueddu i berfformio'n dda dan bwysau cystadleuaeth, tra gall unigolion heb bersonoliaeth narsisaidd dueddu i 'fygu'.

Mae'r 'Camgymeriad Eironig' yn rhywbeth y

gall athletwyr amlwg weld eu hunain yn ceisio'i osgoi dan bwysau. Darganfu ymchwilyr yr IPEP bod athletwyr sydd dan bwysau yn gwneud yr union gamgymeriad y maent yn ceisio'i osgoi, e.e. os yw rhedwr wrth y bloc cychwyn yn dweud wrtho'i hun, "beth bynnag wnei di, paid â gadael y bloc cychwyn yn rhy fuan", bydd yn eironig yn cyflyru ei gorff i adael y blociau'n fuan. Mae ymchwilyr wedi darganfod dwy ffordd o leihau tebygolrwydd gwneud camgymeriad eironig o'r fath: (a) ymarfer sgiliau sy'n lleihau pryder, a (b) defnyddio datganiadau positif.

Trwy ystyried y gwahaniaethau hyn mewn personoliaethau ac ymarfer y sgiliau seicolegol hyn, gallai athletwyr elit elwa'n fawr iawn wrth berfformio.

Tynnwyd sylw at y ddau ddarn ymchwil hyn yn adroddiad Universities UK, *Supporting a UK success story: The impact of university research and sport development*, a lansiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ym Mai yn ystod Wythnos Prifysgolion.



DIOGELU STOCIAU PYSGOD Y BYD

Yn y dyfodol bydd defnyddwyr yn gallu prynu pysgod, yn ffyddiog eu bod yn prynu neu'n bwyta'r cynnyrch a ddisgrifir ar y label neu'r fwydlen, a bod y nyddau y maent wedi'u prynu yn dod o stociau cynaliadwy o bysgod.

Gyda bron i chwarter pysgod y byd yn cael eu dal yn anghyfreithlon, ar amcangyfrif cost o €10 biliwn i Ewrop erbyn 2020, roedd yr UE yn awyddus i ddelio â physgota'n anghyfreithlon. Un fenter bwysig oedd cyllido project tair blynedd €4 miliwn drwy Ewrop gyfan, o'r enw "FishPopTrace", yn yr Ysgol Gwyddorau Biolegol.

Mae'r project wedi darparu offer genetig newydd pwerus a hyblyg a fydd yn helpu i ddiogelu stociau pysgod yn Ewrop yn ogystal â diogelu defnyddwyr yn Ewrop.

Fel yr eglura'r Athro Gary Carvalho, "Ni fu'n bosibl profi union darddle unrhyw bysgodyn penodol ac, mewn rhai amgylchiadau, yn arbennig yn achos pysgod sydd wedi'u prosesu neu eu coginio, gall fod yn anodd hyd yn oed adnabod y rhywogaeth, heb sôn am ei tharddle.

"Rydym wedi datblygu dull y gellir ei ddefnyddio ar hyd y gadwyn cyflenwi bwyd a ledled y diwydiant pysgod. Gellir defnyddio'r offer i adnabod neu gymharu cyfres o farcwy'r genetig a nodwyd ymlaen llaw o fewn samplau o bysgod, ar unrhyw bwynt yng nghadwyn y defnyddwyr, o'r rhwyd i'r plât, ac olrhain y pysgod i'w tarddle neu i'w grŵp bridio."

Dyma'r system gyntaf y profwyd ei bod yn gallu adnabod rhywogaethau pysgod i safon ddilysu fforensig fel yr adroddwyd yn 'Nature Communications' ym mis Mai.





RHAGLEN LAWN PONTIO

Gyda rhaglen lawn o ddigwyddiadau bob tymor, llwyddodd Pontio i gynnal nosweithiau cabaret, dramâu Cymraeg a Saesneg ar gyfer pob oed, dawns, pantomeim, cerddoriaeth y byd, ffilmiau, hwyl gymunedol, adrodd straeon, theatr arbrofol a llawer mwy.

Ymhlith yr uchafbwyntiau oedd y *Luminarium* unigryw a ddenodd dros 4000 o ymwelwyr. Gyda'r cynhyrchiad arloesol *Cerebellium* ymunodd myfyrwyr o'r Ysgol Seicoleg gyda gweithwyr proffesiynol y theatr i gynllunio theatr y meddwl unigryw. Cafwyd cyfle yng nghynhadledd y *Devoted and Disgruntled Theatre* i fynegi syniadau am ddyfodol y theatr yng ngogledd Cymru, ac am y tro cyntaf erioed llwyddodd Pontio i

gael cwmni theatr Shakespeare y Globe i ymweld â Bangor a pherfformio *As You Like It* yng Nghastell Penrhyn.

Mae Pontio wedi cynnal projectau cymunedol ysbrydoledig a mynd â chelf allan i gynulleidfaoedd newydd. Bu 20 o ysgolion lleol yn cymryd rhan mewn gweithdai yn cyflwyno cerddoriaeth a barddoniaeth. Gyda'r project Pelydrau cafodd plant lleol gydag anghenion addysgol arbennig gyfle i arbrofi gyda sain a chyfansoddi, yn ogystal â pherfformio eu gwaith a oedd o ansawdd uchel. Bu artist-preswyl cyntaf Pontio yn perfformio cerddoriaeth i breswylwyr yng nghartref preswyl Plas Hedd ym Maesgeirchen, Bangor.

Hefyd gwahoddwyd pob un o'r 11 ysgol ym Mangor i gyflwyno a phlannu eu syniadau ar safle adeiladu canolfan newydd y celfyddydau ac arloesi, fel rhan o broiect HaDAsyniaDA/ IdeaSeeds, a gweithiodd y bardd Yr Athro Gerwyn Williams gyda disgyblion ysgolion lleol i lunio cerdd am y ganolfan newydd. Dyma ran o'r gerdd:

GAWN NI...?
(*dychmygu canolfan newydd Pontio*)

Gawn ni ddangos gwaith celf Ysgol Tryfan y Band Jas a'r Côr ar ganol y llwyfan;

sioeau Bara Caws, dramâu a ffilmiau, jôcs Tudur Owen, Brwydr y Bandiau;

CYMUNED

CYFRIFIADURA PERFFORMIAD UCHEL

Mae Cyfrifiadura Perfformiad Uchel (HPC Cymru) yn fenter Cymru gyfan mewn partneriaeth â holl brifysgolion Cymru. Mae'r fenter yn arwain datblygiad economaidd ac ymchwil academiaidd yng Nghymru, trwy ddarparu caledwedd cyfrifiadura gyda'r gorau yn y byd ac amrywiaeth eang o wasanaethau cefnogi a hyfforddi. Fujitsu oedd y bdiwr llwyddiannus a contractiwyd i ddarparu seilwaith HPC Cymru, ac fel rhan o'u hymrwymiad i'r project maent yn cyllido 20 o efrydiaethau PhD ar draws Cymru.

Enillodd Bangor bedair o'r efrydiaethau PhD hyn sydd wedi eu cyllido'n llawn, a bydd ein hacademyddion llwyddiannus yn cydweithio'n agos â busnesau lleol. Mae'r Athro James Scourse a Dr Mattias Green o'r Ysgol Gwyddorau'r Eigion yn modelu sut y gall newid yn yr hinsawdd effeithio ar y ffordd mae llenni iâ'n gwanhau trai a llanw'r moroedd trwy'r byd. Mae Dr Simon

Neill, sydd hefyd yn gweithio yn yr ysgol, yn modelu effaith hir dymor safleoedd cynhyrchu pŵer o'r llanw, megis y rhai y bwriedir eu gosod ger arfordir Ynys Môn, ar waddodion ar wely'r môr. Mae Dr Reza Hashemi, SEACAMS, yn edrych ar sut mae newid yn yr hinsawdd yn ysgogi newid mewn aberoedd trwy ystyried y system gyfan o'r dalgylchoedd lle mae'r glaw'n disgyn hyd at y môr. Mae Dr Si Creer o'r Ysgol Gwyddorau Biolegol yn defnyddio dadansoddiad DNA o gymunedau microbaidd mewn mawndiroedd er mwyn dod i ddeall sut mae newid yn yr hinsawdd yn gallu dylanwadu ar ryddhau carbon o'r mawn.

Mae HPC Cymru wedi ei gyllido'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau'r Deyrnas Unedig, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r prifysgolion partner.

Dr Simon Neill a myfyrwraig PhD, Alice Goward Brown, sy'n dangos effaith hirdymor cynlluniau cynhyrchu ynni drwy'r llanw.



TRAWSNEWID ARWEINWYR Y DYFODOL

Mae myfyrwraig PhD o'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer yn gweithio gyda Chamre Cymru i wneud yn siŵr fod pobl ifanc yn cael y budd gorau o deithiau.

Mae Samantha McElligott yn gweithio gyda Chamre Cymru dan raglen dair blynedd KESS ym Mhrifysgol Bangor i fesur manteision teithiau tramor fel profiad datblygiadol cadarnhaol i bobl ifanc.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y project ymchwil, mae dros 800 o bobl ifanc 5-19 oed wedi cymryd rhan. Mae'r canlyniadau hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn ac yn dangos bod teithiau Camre Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar hunan-barch, sgiliau arwain, lefelau o gyfrifoldeb, gwaith tîm a sgiliau cyfathrebu cyfranogwyr.

Dywedodd Samantha, a fu'n gweithio fel hyfforddwr awyr agored yn y gorffennol: "Mae wedi ei brofi fod arweinwyr Camre Cymru ar hyn o bryd yn dangos lefelau uchel o ymddygiad hyblyg wrth arwain. Mae hwn yn ddull ymddygiadol y profwyd ei fod yn ysbrydoli a gwella deilliannau dysgu. Defnyddiwyd ef eisoes mewn meysydd fel busnes a'r maes milwrol, ond dyma'r tro cyntaf iddo fod yn bwnc ymchwil ym maes teithiau awyr agored."

"Mae'n bwysig iawn dysgu pobl ifanc i'r eithaf pan fyddant ar deithiau, gan y gall y teithiau, ynddynt eu hunain, fod yn dipyn o drobwynt yn eu bywydau. Bydd y cam nesaf yn edrych yn fanylach ar ymddygiadau arweinyddiaeth a sut y gallwn hyfforddi arweinwyr i gael y canlyniadau gorau posibl."

"Mae fy mhroject yn dangos sut y gall ymchwil effeithio ar y byd go iawn a byddwn yn bachu ar y cyfle i'w ddatblygu ymhellach pan ddaw fy nhair blynedd i ben!"

Mae ysgoloriaeth ymchwil Samantha wedi'i chyllido dan raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop – Ysgoloriaethau Sgiliau ar gyfer yr Economi Wybodaeth.



TRWY GYMERADWYAETH FRENHINOL

Mae Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor wedi ennill Gwobr y Frenhines am wirfoddoli. Yr anrhydedd cenedlaethol pwysig hwn yw'r MBE i grwpiau o wirfoddolwyr sy'n gweithio yn eu cymuned leol er budd pobl eraill. Mae'n gosod y meincnod cenedlaethol i ragoriaeth ym maes gwirfoddoli, ac ystyrir bod gwaith y rhai a wobrwyr o'r safon uchaf. Roedd Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor, sy'n rhan o Undeb y Myfyrwyr, yn un o dri grŵp yng Nghymru i dderbyn y wobwr hon y llynedd.

Mae dros fil o fyfyrwyr y Brifysgol yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor, gyda 250 yn gwirfoddoli mewn un neu ragor o'r 17 project cymunedol. Mae'r gwirfoddolwyr yn rhoi cyfanswm o 450 awr yr wythnos at waith gwirfoddol, sy'n hybu perthynas agos rhwng y brifysgol a'r gymuned leol, gyda chefnogaeth weinyddol Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor.

Meddai'r Athro John G Hughes, yr Is-Ganghellor: "Mae ein myfyrwyr yn gwneud cyfraniad pwysig at y gymuned y maent yn byw ac yn astudio ynddi, ac yn hybu perthynas agos rhwng y Brifysgol a'r gymuned leol. Mae'r cyfleoedd hyn i wirfoddoli yn cyfoethogi profiadau'r myfyrwyr yn ogystal â'r cymunedau lleol. Rwy'n gwybod bod ein projectau gwirfoddoli'n ymateb i anghenion lleol ac yn adlewyrchu diddordebau a phryderon y myfyrwyr."

Meddai Helen Munro, Rheolwr Gwirfoddoli Myfyrwyr Bangor: "Mae'r gwirfoddolwyr yn eithriadol o falch o dderbyn yr anrhydedd hwn sy'n tystio i'r amser y maent yn ei roi a'r hyn sy'n rhaid iddynt ei aberthu weithiau, er mwyn cyfoethogi bywydau pobl eraill fwy bregus."

Gyda Helen Munro a Trefor Alun (GMB) mae yr Arglwydd Raglaw; Maer Bangor, Y Cyngorydd Bryn Hughes; Yr Athro Carol Tully, Dirprwy Is-Ganghellor (Myfyrwyr); a Dr Dewi Roberts, yn cynrychioli Cyngor y Brifysgol; a myfyrwyr sy'n gwirfoddoli.

CYMUNED

FFLAM OLYMPAIDD YN DOD I FANGOR

Roedd staff, myfyrwyr a graddedigion o'r Brifysgol ymhlith y rhai a gafodd yr anrhydedd o gludo'r Ffagl Olympaidd ar ei thaith drwy ogledd Cymru ar 28 Mai. I ddathlu'r digwyddiad cynhaliodd y Brifysgol amrywiaeth o weithgareddau ym Mangor a'r cyffiniau ar y diwrnod.

Cynhaliodd yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, lechyd ac Ymarfer ddigwyddiad 'Profwch eich iechyd a'ch ffitrwydd' yng Nghanolfan Siopa Deiniol. Gallodd y cyhoedd gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau, yn cynnwys gweld pa mor dda oedd eu cydbwysedd ar fwrdd syrffio ffug, ynghyd â dysgu am waith ymchwil cyfredol yn yr Ysgol.

Meddai Jeanette Thom, Uwch Ddarlithydd yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, lechyd ac Ymarfer: "Gyda'r fflam Olympaidd yn dod i Fangor, roedd yn gyfle perffaith i


ennyn brwdfrydedd pawb ynghylch y Gemau Olympaidd. Fe wnaethom fwynhau arddangos ein gwaith ymchwil a'n harbenigedd yn y maes yma".

Roedd myfyrwyr o'r India a China'n perfformio detholiad o ddawnsfeydd traddodiadol a chaneuon mewn gwisgoedd traddodiadol o flaen yr eglwys gadeiriol a ger Ffordd Deiniol i groesawu'r fflam wrth iddi fynd drwy'r ddinas.

Danny Boyle, cyn fyfyrwr o Fangor, oedd y Cyfarwyddwr Artistig a oedd y tu ôl i seremoni agoriadol y Gemau Olympaidd ar 27 Gorffennaf. Mae Boyle, a raddiodd mewn Saesneg a Drama yn 1978, yn fwyaf adnabyddus am gyfarwyddo ffilmiau fel *Trainspotting* a *127 Hours* ac am ennill yr Oscar am Gyfarwyddwr Gorau yn 2008 am ei ffilm *Slumdog Millionaire*.

Dr Matthew Davies, Cynorthwywr Ymchwil yn yr Ysgol Gemeg, un o nifer o staff, myfyrwyr a graddedigion Prifysgol Bangor a ddewiswyd i redeg gyda'r ffagl Olympaidd.





AR FRIG Y GYNGHRAIR WERDD

Prifysgol Bangor yw'r brifysgol fwyaf 'gwyrdd' yng Nghymru yn ôl *People and Planet*, y rhwydwaith myfyrwyr mwyaf ym Mhrydain sy'n ymgyrchu i roi diwedd ar dlodi'r byd, amddiffyn hawliau dynol a gwarchod yr amgylchedd. Bangor oedd ar frig Cyngrhair Prifysgolion Cymru gan godi o safle 28 i 19 yn nhabl y DU. Yr un pryd ag y cyhoeddwyd y Gyngrhair, dyfarnwyd y lefel uchaf, sef 'lefel 5' Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, i'r Brifysgol am ei hymrwymiad i gyflawni gwelliant amgylcheddol parhaus.

Dywedodd yr Is-Ganghellor, yr Athro John G Hughes, "Rwyf wrth fy modd gyda'r cynnydd yr ydym yn ei wneud yn rheoli ein

heffeithiau amgylcheddol ym Mangor. Mae'r gwobrau diweddar hyn yn dod wythnosau'n unig ar ôl i'n Hundeb Myfyrwyr gael ei enwi'n Undeb Amgylcheddol y Flwyddyn yng Ngwobrau Effaith Werdd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS). Mae'r cyflawniadau hyn yn dangos yn glir ein bod yn cymryd ein cyfrifoldebau amgylcheddol o ddifrif ym Mangor."

Ychwanegodd Ricky Carter, y Rheolwr Amgylcheddol, "Mae'r rhain yn gyflawniadau anhygoel. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi gwneud cynnydd aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r ffaith bod y Brifysgol wedi aros ar frig y Gyngrhair Werdd am dair blynedd yn olynol

yn deyrnged i waith tîm ac ymrwymiad ein holl staff a myfyrwyr i ofalu am ein hamgylchedd lleol. Erbyn hyn mae ein System Rheoli Amgylcheddol wedi cyrraedd y safle uchaf posibl yn Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Bu'n ofynnol i grŵp ymroddedig o staff a myfyrwyr gael hyfforddiant dwys, ymhlith pethau eraill, wrth gynnal archwiliadau mewnol o'n heffeithiau amgylcheddol."

Mae gwybodaeth bellach am ymrwymiad Bangor i bob agwedd ar gynaliadwyedd ar wefan y Brifysgol:
www.bangor.ac.uk/sustainability